Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Dysgu Cyfunol** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth am y ddogfen arweiniol 'Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol' (Atodiad 1), i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

## 2.0 Cefndir

2.1 Ar y 3ydd o Fehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y bydd ysgolion yn cael eu hagor yn raddol o 29 Mehefin i roi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddysgu er mwyn rhoi cyngor i ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf hwn ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

2.2 Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan LlC yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i ysgolion weithredu eu barn broffesiynol o ran sut y byddant yn cynllunio eu cynnig ar gyfer eu disgyblion. Nawr mae gan ysgolion fframwaith amlinellol ar gyfer cynllunio addysgu a dysgu am weddill tymor yr haf a thymor yr hydref 2020. Mae'r canllawiau yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ail-werthuso dysgu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy mewn ymateb i ystod o heriau.

2.3 Gan adeiladu ar y canllawiau dysgu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r arweiniad hwn, dogfen a ddatblygwyd ar y cyd gan y Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol ac Estyn, yn nodi'r arfer gorau a'r dulliau dysgu cyfunol gorau i gefnogi ymarferwyr.

2.4 Dylai lleoliadau ac ysgolion adeiladu ar eu strategaethau dysgu o bell, a bydd angen iddynt gael mynediad at gefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu dulliau dysgu cyfunol.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Bydd lleoliadau ac ysgolion ar wahanol gamau wrth ddatblygu eu cefnogaeth ar gyfer cyfuno dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell a bydd eu dull yn amrywio yn ôl eu cyd-destun a'u gallu. Bydd pob lleoliad ac ysgol yn ymateb i'r gofynion ar sail ei asesiad risg, cynhwysedd y safle, argaeledd staff, nifer y dysgwyr a pha mor aml y gallant fynychu'r sefydliad yn ddiogel. Dylid seilio'r cynllunio ar ganllawiau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau mewn dysgu cyfunol.

3.2 Nid yw'r egwyddorion a'r cyngor sylfaenol yn ceisio disodli'r arfer effeithiol sy'n bodoli, ond gallant helpu i'w fireinio a'i ddatblygu ymhellach.

3.3 Mae'r ddogfen hon yn darparu awgrymiadau ymarferol i gefnogi ysgolion gyda'u dull integredig o ddysgu cyfunol ac mae'n rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- Cefnogi iechyd a lles
- Cefnogi ffitrwydd dysgu
- Dull dysgu cyfunol
- Trefnu'r dysgu
- Sefydlu trefn a phrotocolau
- Ymgysylltu â dysgwyr
- Cefnogi rhieni a gofalwyr
- Cefnogi tegwch i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi'r dysgu trwy gydweithio
- Dysgu proffesiynol

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Fforymau Strategol Penaethiaid.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – 'Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol'.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf eto fod rhan 5 o'r adroddiad yn egluro "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn". Yng nghyd-destun heriol Covid-19 a chyfyngiadau, rwy'n gwerthfawrogi fod GwE yn ychwanegu gwerth o fewn yr adnoddau presennol..